**Julie James AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru

8 Ebrill 2024

Annwyl Cadeirydd

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Rhentwyr (Diwygio)**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mawrth yn dilyn sesiwn y Pwyllgor ar 11 Mawrth 2024.

Roedd fy swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â swyddogion Llywodraeth y DU cyn cyflwyno'r Bil Rhentwyr (Diwygio), i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y sefyllfa mewn perthynas â'r Bil. Roedd fy swyddogion hefyd yn cysylltu'n rheolaidd â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU, yn enwedig lle y gallai materion grwydro i feysydd datganoledig.

Ar 26 Ebrill, cafodd swyddogion Llywodraeth Cymru wybod bod y Bil yn debygol o gael ei osod ddechrau mis Mai ac y byddai'r Bil yn gymwys i Loegr yn unig. Hysbysodd Llywodraeth y DU swyddogion polisi hefyd eu bod yn llunio cynigion ynghylch gwaharddiadau diwahân ar arferion 'Dim hawlwyr DSS' a 'Dim plant' ('y gwaharddiad diwahân'). Ni fyddai'r darpariaethau hyn yn barod ar gyfer cyflwyno'r Bil, ond roeddent yn debygol o gael eu cyflwyno yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

Ar yr adeg hon, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru yn anffurfiol ynghylch y posibilrwydd o estyn darpariaethau'r gwaharddiad diwahân i Gymru. Y pryd hynny rhagwelwyd y byddai Cyfnod y Pwyllgor ar ddechrau mis Mehefin, felly roedd yr amserlen yn dynn iawn.

Yn dilyn eu hystyriaethau eu hunain o sut y byddai hyn yn gweithio, rhoddodd fy swyddogion wybod imi am y gwahoddiad ar 17 Mai, a dywedais fod hwn yn rhywbeth yr hoffwn i swyddogion ei archwilio. Yna, cynhaliodd fy swyddogion gyfarfodydd â swyddogion Llywodraeth y DU dros yr wythnosau nesaf i weithio ar y gofynion polisi ar gyfer Cymru yn fanylach.

Yn y cyfamser, cafodd y Bil fel y'i cyflwynwyd ei ystyried gan swyddogion ac, ar 24 Mai, cefais wybod nad oedd angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil. Yn dilyn hynny,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ysgrifennais at Weinidog Llywodraeth y DU dros Dai i gadarnhau fy mod o'r farn nad oedd angen cydsyniad deddfwriaethol.

Ar 12 Mehefin, rhoddais ganiatâd ffurfiol i swyddogion weithio gyda Llywodraeth y DU ar y potensial i estyn darpariaethau'r gwaharddiad diwahân i Gymru.

Llithrodd Cyfnod Pwyllgor y Bil sawl mis i'r dyddiad olaf ar 18 Tachwedd. Gweithiodd fy swyddogion yn agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU wrth ddatblygu cyfarwyddiadau polisi cyn yr amser hwn. Cafodd gwelliannau drafft, yn eu tro, eu rhannu â Llywodraeth Cymru i'w hystyried. Cwblhawyd y gwelliannau a chytunwyd arnynt gan swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU ar 18 Hydref. Hefyd gweithiodd fy swyddogion gyda Llywodraeth y DU ar ddogfennau ategol, fel Nodiadau Esboniadol a'r Memorandwm Pwerau Dirprwyedig yn ystod y cyfnod hwn.

Ar 25 Hydref, ysgrifennais at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, gan anfon copi at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, i'w gwneud yn ymwybodol bod fy swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i wneud gwelliannau i'r Bil Rhentwyr (Diwygio) i gyflwyno darpariaethau'r gwaharddiad diwahân yng Nghymru.

Ar 14 Tachwedd, cyhoeddwyd y gwelliannau mewn perthynas â Chymru, ac ysgrifennodd y Gweinidog Ffyniant Bro at y Gweinidog Newid Hinsawdd i ofyn yn ffurfiol am gydsyniad deddfwriaethol gan y Senedd. Ymatebais ar 31 Ionawr i gadarnhau bod cydsyniad deddfwriaethol wedi cael ei geisio, a bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi cael ei osod ar 30 Ionawr.

Mae fy swyddogion wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth y DU drwy gydol y broses ac mae'r ymgysylltu yn parhau wrth i'r Bil fynd ar ei daith drwy Senedd y DU.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning